



03.02.2021

Elin Lenny  
Cyswilt Contact  
Ffôn Phone  
0330 588 0506

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

# Bwrw golwg ar fyd bridio a chludo ceffylau

O wneud dêls gyda Sheiks mwyaf cefnog y Dwyrain Canol i gludo ceffylau Cymreig i rai o gartrefi mwyaf godidog Ewrop - mae 'na ddau gwmi Cymreig sy'n gadael eu marc ar y farchnad ceffylau rhyngwladol.

Yn **DRYCH: Ceffyl Blaen**, sydd ar S4C nos Sul am 9.00, dilynwn gwmi cludo ceffylau Nebo Stud ger Llanrhystud a theulu Jones o fridfa Bychan ger Llandeilo wrth iddynt geisio gwarchod eu busnesau llwyddiannus trwy gyfnod o newid digynsail.

Rhwng Covid a Brexit, mae'n amser heriol. Tra i gymhlethdodau rheolau newydd Brexit barhau i ddod i rym, cafodd cwmni Nebo'r dasg o gludo eu llwyth mwyaf gwerthfawr erioed - llond lori o geffylau oedd yn werth dros filiwn o bunnoedd.

"Mae Brexit wedi bwrw ni, ac mae'r cwbl wedi newid a dweud y gwir," meddai perchennog Nebo, Owen Jones. "Mae'n costio tua thair gwaith cymaint i fynd a cheffyl i'r iseldiroedd, i gymharu fel oedd e llynedd.

"Mae'r gwaith papur wedi mynd yn ofnadwy, o ddau dudalen i un ar ddeg. Ac yn waeth na ni, ma' nhw moyn 11 tudalen arall mewn Ffrangeg. Os chi'n symud ymlaen i Sweden neu'r Almaen, ma' nhw moyn 11 tudalen yn yr iaith yna hefyd.

"Fi wedi bod yn y busnes ers dros ddeng mlynedd ar hugain a dwi'n credu dyma'r peth gwaethaf sydd wedi digwydd. Mae'r cwbl wedi troi wyneb i waered dros nos. Gobeithio'r ddawn i ben i gadw pethau gyda'n gilydd a gallwn ni gario 'mlaen fel i ni."

Er gwaetha poen meddwl y gwaith papur, mae gwaith Owen yn mynd ag e i rai o gyrchfannau mwyaf mawreddog Ewrop.

"Dwi wedi gweld tipyn o'r byd gyda'r ceffylau mae'n rhaid gweud. Mae'n neis gweld shwt mae'r bobl eraill yn byw ambell waith."

Wrth iddo gael paned a seibiant ar ôl cludo wyth caseg o'r radd flaenau i chateau enfawr yn Llydaw, mae'n dweud: "Fi'n credu mai dyma'r lle mwyaf trawiadol fi byth wedi bod yn erioed."

Mae Emrys Jones o fridfa Bychan yn gytûn fod ei waith yn hynod wobrwyl, gydag "ennill sioe fel ennill loteri". Mae eu mab, Rhodri, wedi meistrolï'r grefft o arddangos ceffylau Arab tanllyd mewn sioeau, ac yn cael llwyddiant ledled y byd.

Gyda phrofiad y teulu wedi ennill enw da am fagu, arddangos a gwerthu ceffylau Arab, mae nifer o'u cwsmeriaid yn brynwyr o'r Dwyrain canol - ac yn codi pris o hyd at hanner miliwn o



bunnoedd. Mae Emrys, a'i wraig Sue wedi profi llwyddiant wrth arbrofi gyda semen meirch o wahanol wledydd, a'u hymgais nesa yw bridio ceffyl all ennill pencampwriaeth y byd am y trydydd tro.

Mae Emrys wrth ei fodd pan mae'r ebol diweddara yn cyrraedd yn iach, meddai: "Ar ôl yr amser gwael ni di cael, mae'n grêt i weld rhywbeth mor neis ac iachus yn dod 'mlaen. Mae'n rhoi gobaith i chi am y dyfodol, a gobeithio bydd dyfodol da iddo fe hefyd."

Am fwy o hanesion y ddau fusnes bach ym myd y ceffylau mawr, gwylwch **DRYCH: Ceffyl Blaen** nos Sul.

**DRYCH: Ceffyl Blaen**

**Dydd Sul, 13 Chwefror am 9.00**

**Isdeitlau Saesneg**

**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**

**Cynhyrchiad Carlam ar gyfer S4C**



03.02.2022

Elin Lenny  
Cyswilt Contact  
Ffôn Phone  
0330 588 0506

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

# The Welsh companies that reign supreme in the equine industry

From making deals with the wealthiest Sheiks in the Middle East to transporting Welsh horses to some of Europe's most prestigious homes - two Welsh companies are making their mark on the international horse market.

On Sunday at 9.00pm on S4C, we follow the Nebo Stud horse carriage company near Llanrhystud and the Jones family of the Bychan stud company near Llandeilo. In the documentary, **DRYCH: Ceffyl Blaen**, we see the two companies attempt to protect their successful businesses during unprecedented change.

Between Covid and Brexit, it's been a challenging time. As the complexities of the new Brexit rules come into effect, Nebo Stud were tasked with transporting their most valuable cargo ever - a truckload of horses worth over a million pounds.

"Brexit has hit, and everything has changed," says Owen Jones who runs Nebo Stud. "It now costs about three times as much as last year to take a horse to the Netherlands.

"The paperwork is awful, it's gone from two pages to 11. And worse than that, they want another 11 pages in French. If you're going on to Sweden or Germany, they want 11 pages in that language too.

"I've been in the business for over 30 years and this has to be the worst thing that's happened. The whole thing has turned on its head overnight. Hopefully we'll be able to keep things together so we can carry on as we do."

Despite the pain of the paperwork, Owen's work takes him to some of Europe's most prestigious destinations.

"I've seen a lot of the world because of the horses. It's nice to see how the other half live sometimes!".

As he enjoys a rest and a cuppa after transporting eight horses of the most coveted breeds to a fairytale chateau in Brittany, he says: "I think this is the most spectacular place I've ever been."

Emrys Jones of the Bychan stud farm agrees that the work is extremely rewarding, with "winning a show like winning the lottery". Their son, Rhodri, has mastered the art of showing fiery Arab horses at prestigious shows, enjoying success in shows across the world.



The family have gained a good reputation for breeding, exhibiting and selling Arabian horses. Many of their customers are wealthy Middle Eastern buyers, with prices reaching up to half a million pounds per horse. Emrys and his wife Sue also have a prized collection of frozen horse semen from different countries. Their next challenge is to use the semen to breed a horse that can win them the world championship for the third time.

When the latest colt is born healthy, Emrys is delighted: "After the troubled times we've had, it's great to see something so nice and healthy coming into the world. It gives you hope for the future, and hopefully this little one will have a prosperous future too."

For more tales of how these two family businesses are making an impression on the international stage, watch **DRYCH: Ceffyl Blaen**.

**DRYCH: Ceffyl Blaen**

**Sunday, 13 February at 9.00**

**English subtitles available**

**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**

**A Carlam production for S4C**